

GWYNNE (GWINNE, GWYN, neu WYNNE), ROBERT (JOHNS) (fl. 1578), cenhadwr ac awdur Pabyddol

Enw: Robert (Johns) Gwynne
Rhiant: John Wyn ap Hugh
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cenhadwr ac awdur Pabyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Y mae'n debyg ei fod o deulu [Bodvel](#) - efallai ei fod yn fab i [John Wyn ap Hugh](#) gan ei fod yn ei alw ei hun yn un o'i ysgrifeniadau yn ' Robert Johns gwyn.' Aeth i Goleg Corpus Christi, Rhydychen, a graddio'n B.A. yn 1568. Tua thair blynedd wedi hynny fe'i perswadiwyd gan ei gymydog [Robert Owen](#), Plas Du, Sir Gaernarfon, i beidio â mynychu gwasanaeth Eglwys Loegr a dianc dros y môr. Aeth i seminari Douay yn 1571 yng nghwmni Thomas Crowther, Cymro o esgobaeth Henffordd a raddiodd yn Rhydychen tua'r un adeg ag yntau a thua'r amser y graddiodd [Robert Owen](#) hefyd. Cymerodd ei B.D. ac ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1575 a chafodd ei anfon i'r genhadaeth yn Lloegr y flwyddyn ddilynol. Aeth yn syth i'w ardal enedigol a rhoddwyd lloches iddo yn yr ystafell ddirgel yn Plas Du gan Thomas, brawd [Hugh Owen](#). Yn gynnar iawn daeth newyddion i Douay am lwyddiant eithriadol ei genhadaeth, yn enwedig ymysg gwagedd yr ardal, ac am ddiflastod yr esgob, [Nicholas Robinson](#), pan geisiodd hwnnw ddyfod â chyngaws yn erbyn y dychweledigion. Ysgrifennodd lawer yn Gymraeg er mwyn lledaenu ei ffydd, gan gyfieithu *Christian Directory* Robert Parsons (*Llyfr y Resolusion*); awgrymwyd mai efe ydoedd awdur y farwnad ffyrnig i Wilym o Orange (bu farw 1584), y dywedir hefyd mai [Richard Gwyn](#) a'i hysgrifennodd. Yn 1578, pan nad oedd mwyach ddim esgobion Pabaidd wedi eu gadael yn rhydd yn Lloegr, rhoes y pab Gregory XIII ryw gymaint o awdurdod esgobol iddo dros y cyfnod arbennig hwnnw. Ni wyddys ddim am ei hanes diweddarach, ond ymddengys ei fod yn fyw yn 1591.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*, i, 624

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813–20) (gol. Bliss), i, 586

Oxford Historical Society, i, 271

First Douay Diary and *The Second Douay Diary*, 5,7,24 100 108, 259, 288

Reports of the Historical Manuscripts Commission, ii, 309

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1936, 117; 1937, 117-8, 128

Oxford Dictionary of National Biography, xxiii, 399

Darllen Pellach

[Y drych Cristianogawl yn yr hwn y dichon pob Cristiawn ganfod gwreidhin a dechreuad pob daioni sprydawl](#)

R. Geraint Gruffydd, *Argraffwyr cyntaf Cymru* (1972)

R. Geraint Gruffydd. 'Gwasg ddirgel yr ogof yn Rhiwledyn', *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, Vol. 9, no.1, July 1958, pp.1-23

Philip Henry Jones a Eiluned Rees (goln.), *A nation and its books: a history of the book in Wales* (Aberystwyth 1998)

Erthygl Wicipedia: [Robert Gwin](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [26393778](#)

Wikidata: [Q7345016](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

